# CYD-GYFARFOD O'R
# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU A'R
# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD LLUN, 5ED O RAGFYR 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.W. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, D.J.R. Bartlett, J.M. Charles, A.P. Cooper, D.M. Cundy, W.R.A. Davies, S.L. Davies, T. Davies, T. Devichand, W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, W.J. Lemon, G.B. Thomas, E.G. Thomas, J. Thomas and J.S. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd,  yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai
Y Cynghorydd L.M. Stephens, yr Aelod o'r Bwrdd dros adnoddau dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio
Y Cynghorydd T.J. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Y Pennaeth Cynllunio Integredig
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynortwyol,
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 1.30pm - 1.55 pm**

**1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd A.W. Jones yn Gadeirydd y cyfarfod.**

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Matthews a'r Cynghorydd M. Gravell - yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden

**3. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**4. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG.**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. GRWP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2013/14 - MONITRO'R CYNLLUN GWEITHREDU

Yn unol â chofnod 6.4 o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2016 derbyniodd y Pwyllgor adroddiad monitro'r cynllun gweithredu ynghylch gweithredu argymhellion yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ynghylch Polisi a Phrotocolau Gorfodi Rheolau Cynllunio i'w ystyried. Atgoffodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y Pwyllgor mai diben yr adroddiad oedd darparu diweddariad ynghylch y camau gweithredu a gytunwyd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu a'r argymhellion a oedd yn codi o'i gyfarfod ym mis Medi 2015.

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynghylch argymhelliad a gyflwynwyd ar 14 Medi 2015 ar gyfer datblygu protocol gyda Heddlu Dyfed-Powys o ran rhannu gwybodaeth ac ystyried y posibilrwydd o ganiatáu mynediad i gronfa ddata ddiogel yr Heddlu. Rhoddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu wybod i'r Pwyllgor fod Grŵp Amlddisgyblaeth Corfforaethol bellach wedi cael ei sefydlu a fyddai'n ceisio symud y mater hwn yn ei flaen fel rhan o'i gynllun gwaith. Yn ogystal, hysbyswyd aelodau bod swyddogion wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod Tîm Cydymffurfio o ran Gwybodaeth Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys a fyddai'n cael ei dderbyn a'i drefnu.

Ar ben hynny, yn unol â chofnod 6.3 o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2016 darparodd y Cyfreithiwr Cynorthwyol ddiweddariad ar lafar ynghylch argymhelliad 21 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Nododd y Cyfreithiwr Cynorthwyol ei bod wedi rhoi gwybod i swyddfa weinyddol y llys ynadon lleol y byddai'r Awdurdod yn fodlon darparu hyfforddiant i ynadon lleol ynghylch gorfodaeth o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Fodd bynnag, eglurodd yr Uwch-glerc na fyddai mewn sefyllfa i gytuno ond gofynnodd am gopi o'r pecyn hyfforddiant arfaethedig er mwyn cyflwyno hyn gerbron Pwyllgor Ardal Llys yr Ynadon i'w ystyried.

Esboniodd y Cyfreithiwr Cynorthwyol wrth y Pwyllgor y byddai angen drafftio deunydd hyfforddiant newydd a fyddai'n costio i'r Awdurdod, heb unrhyw sicrwydd y byddai'r Llys Ynadon yn derbyn yr hyfforddiant. Dywedodd y Cyfreithiwr Cynorthwyol y dylai Aelodau a'r Adran Gynllunio ystyried y mater hwn ymhellach.

Codwyd y materion/cwestiynau canlynol wrth ystyried yr adroddiad.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch argymhelliad 8, rhoddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu wybod i'r Aelodau ei fod yn rhagweld y byddai'r cyhoeddiad newydd o ran canllaw iaith syml ynghylch protocol gorfodi ar gyfer aelodau etholedig a'r canllaw cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â'r flwyddyn Rheoli Perfformiad nesaf.

Yn dilyn ymholiad mewn perthynas â chynnydd argymhellion 6 a 7, nododd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y rhain wedi cael eu cwblhau ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

Cyfeiriwyd at argymhelliad 12. Gofynnwyd a oedd unrhyw reswm dros y penderfyniad i beidio â mynd ymlaen â'r opsiwn o ddyblu ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio ôl-weithredol? Nododd y Rheolwr Rheoli Datblygu y codir costau ychwanegol ar yr adran wrth brosesu ceisiadau cynllunio ôl-weithredol ac nid oedd yn derbyn unrhyw iawndal ar gyfer hynny. Roedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnwys darpariaeth i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol godi tâl am fathau penodol o waith, fodd bynnag, er mwyn adennill y ffioedd hyn, roedd angen tystiolaeth weinyddol ynghylch pob achos ar Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr argymhelliad mewn perthynas â'r defnydd o Hysbysiadau Atal dros dro, eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod Hysbysiadau Atal yn cael eu hystyried fel y cam gweithredu olaf a fyddai'n gwahardd unrhyw weithgareddau neu'r holl weithgareddau a oedd yn cynnwys yr achosion honedig o dorri rheolau cynllunio a nodwyd yn yr hysbysiad gorfodi perthnasol. Ond gellid rhoi Hysbysiad Atal dros dro heb hysbysiad gorfodi a fyddai'n weithredol ar unwaith.

Holwyd a oedd dyddiad wedi cael ei drefnu mewn perthynas ag argymhelliad 14. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu nad oedd dyddiad wedi'i drefnu eto ac y byddai'n rhoi gwybod i aelodau ynghylch y dyddiad yn y man.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu.**

## 7. LLOFNODI YN GOFNODAU CYWIR, COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 24AIN MAWRTH, 2016

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 24ain Mawrth, 2016 gan eu bod yn gywir.**

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**